COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD IAU, 30 MEDI 2021, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd G Thomas – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | N Clarke | SK Dendy | DK Edwards |
| RM Granville | A Hussain | MJ Kearn | DRW Lewis |
| JC Spanswick | KJ Watts | RE Young | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins, JC Radcliffe, RME Stirman, MC Voisey a/ac CA Webster

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Craig Flower | Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol |
| Rod Jones | Uwch Cyfreithiwr |
| Robert Morgan | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Philip Thomas | Prif Swyddog Cynllunio |

518. DATGANIADAU O FUDDIANT

Y Cynghorydd JP Blundell – Eitem 7 ar yr Agenda fel aelod o Gyngor Cymuned Trelales sydd ddim yn cymryd unrhyw ran mewn materion cynllunio.

519. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNIAD: Bod cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu dyddiedig 19 Awst 2021 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir a chywir.

520. SIARADWYR CYHOEDDUS

Roedd y person canlynol a wahoddwyd i'r cyfarfod yn arfer ei hawl i siarad fel siaradwr cyhoeddus ar y cais a nodir isod:-

Y Cynghorydd CE Smith – Aelod Ward - P/21/605/FUL

521. TAFLEN DDIWYGIADAU

PENDERFYNIAD: Bod y Cadeirydd yn derbyn taflen ddiwygiadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried addasiadau angenrheidiol i adroddiad y Pwyllgor, a hynny er mwyn ystyried y sylwadau a'r diwygiadau hwyr y mae'n ofynnol eu bodloni.

522. CANLLAWIAU'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNIAD: Bod crynodeb o ganllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, fel y'i nodir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, yn cael ei nodi.

523. P/21/605/FUL - 20 SHAKESPEARE AVENUE, CEFN GLAS

PENDERFYNIAD: Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu, yn ddarostyngedig i'r Amod a geir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol –Cymunedau.

Cynnig

Newid defnydd o fod yn annedd (dosbarth defnydd 3(a)) i fod yn ofal preswyl ar gyfer 1 plentyn (dosbarth defnydd C2).

524. P/21/237/RLX - CYFLEUSTER TREULIO ANAEROBIG (AD) STORMY DOWN, STORMY DOWN

PENDERFYNIAD: (1) Wedi ystyried y cais uchod, bod yr ymgeisydd yn ymrwymo i Gytundeb Gweithred Amrywio/Adran 106 er mwyn:-

(i) cynnwys cytundeb ffyrdd teithio ar gyfer cerbydau nwyddau trwm sy'n teithio yn ôl ac ymlaen i'r ganolfan AD a'r lagŵn gweddillion;

(ii) ei gwneud yn ofynnol i weithredwr y gwaith AD gadw cofnod o gwynion a chyhoeddi adroddiad ar unrhyw achosion o dorri'r cytundeb ar gyfer y ffyrdd teithio.

(2) Rhoi pwerau dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau i gyhoeddi hysbysiad penderfyniad sy'n rhoi caniatâd mewn perthynas â'r cynnig hwn unwaith y bydd yr ymgeisydd wedi ymrwymo i'r Cytundeb Adran 106 uchod, yn ddarostyngedig i'r Amodau a gynhwysir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:-

Cynnig

Amrywio amodau 1 a 7 o P/17/1047/RLX i ganiatáu cynnydd o ran y tunelli o wastraff bwyd a'r diwygiadau cysylltiedig i'r cynllun.

525. P/21/484/FUL - IRVIN GQ, FFORDD BETWS, LLANGEINOR

PENDERFYNIAD: Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu, yn ddarostyngedig i'r Amodau a geir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol –Cymunedau:-

Cynnig

Adeiladu adeilad newydd wedi'i ehangu (i gymryd lle strwythur a ddymchwelwyd yn ddiweddar) ar gyfer profi cynnyrch.

526. P/21/541/FUL - SWEET LIL, HEOL LLANGEINOR, LLANGEINOR

PENDERFYNIAD: Gwrthod y cais uchod, am y rhesymau a nodir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau

Cynnig

Newid defnydd i siop bysgod a sglodion (Dosbarth Defnydd A3) o'r siop fanwerthu (Dosbarth Defnydd A1) bresenol.

527. APELIADAU

PENDERFYNIAD: (1) Bod yr Apeliadau 7 a dderbyniwyd ers adroddiad diwethaf y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau i'r Pwyllgor yn cael eu nodi.

(2) Bod yr Apeliadau canlynol a bennwyd gan yr Arolygydd(ion) a benodwyd gan Weinidogion Cymru, yn cael eu Gwrthod:-

| **Rhif Cod**. | **Pwnc yr Apêl:** |
|---|---|
| A/21/3274317 (1919) | Cadw adeilad allanol presennol a Godwyd ar gyfer Darparu Therapi i Oedolion a Phlant ag Anawsterau Dysgu ac Anghenion Arbennig, Fferm Tynton, Bythynnod Mount Pleasant, Llangeinor. |
| A/21/3274987 (1920) | Newidiad rhannol Garej ac Estyniad To i Greu Uned Breswyl 1 Ystafell Wely; Newidiadau Allanol Cysylltiedig 19 Heol Llangrallo, Pencoed. |
| ENV/3275423 (1921) | Tocio coed yn Barhaus (T/18/17/TPO Yn cyfeirio) Cefn 44 Briary Way, Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr. |
| A/21/32761 (1922) | Newid Defnydd Siop Manwerthu (A1) i Siop Sglodion Tecawê Bwyd Poeth (A3) 10 Heol Caerau, Maesteg. |

528. ARCHWILIO CEISIADAU CYNLLUNIO AC APELIADAU A RHEOLI ADEILADU

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau adroddiad, gyda’r diben o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu am ganlyniadau archwiliadau diweddar o Geisiadau Cynllunio ac Apeliadau a Rheoli Adeiladu. Cynhaliwyd yr archwiliadau yn unol â Chynllun Archwilio Mewnol 2021/22.

Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth gefndirol, sef mai diben yr archwiliad Ceisiadau Cynllunio ac Apeliadau oedd rhoi sicrwydd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau rheoli mewnol, llywodraethu a rheoli risg mewn perthynas â Cheisiadau Cynllunio ac Apeliadau. Cynhaliwyd profion archwilio mewn perthynas â blynyddoedd ariannol 2020/21 a 2021/22. Roedd cwmpas yr Archwiliad yn cynnwys sicrhau bod y rheolaethau allweddol ar waith, fel y nodir ym mharagraff 3.2 yr adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr – Rheoli Adeiladu a Datblygu mai diben yr archwiliad Rheoli Adeiladu oedd rhoi sicrwydd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau rheoli mewnol, llywodraethu a rheoli risg mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn. Cynhaliwyd profion archwilio mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2020/21 a 2021/22. Roedd cwmpas yr Archwiliad yn cynnwys sicrhau bod y rheolaethau allweddol ar waith, fel y nodir ym mharagraff 3.4 yr adroddiad.

Yna, tynnodd paragraff 4.1 yr adroddiad sylw at y ffaith, ar gyfer yr Archwiliad Ceisiadau Cynllunio ac Apeliadau, y canfuwyd bod
system lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth gadarn ar waith ar y cyfan. Rhestrwyd enghreifftiau o hyn yn yr adran hon o'r adroddiad. Yn ogystal, adlewyrchwyd cryfderau a meysydd arfer da ynghyd â materion eraill lle gellid gwneud gwelliannau, a fyddai'n cael eu gweithredu yn unol â hynny, eglurodd Rheolwr y Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu.

Ym mharagraffau 4.4 a 4.5 yr adroddiad cafwyd manylion am y prosesau a ddilynwyd o ran sut mae cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu'n gweithredu, gan gynnwys canfyddiadau'r archwiliad o hyn.

O ran archwiliad Rheoli Adeiladu, canfuwyd hefyd fod system lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth gadarn ar waith ar y cyfan yn y maes gwaith hwn. Yn yr un modd â'r enghreifftiau uchod, mewn perthynas â meysydd eraill o waith Cynllunio a Datblygu a archwiliwyd, rhoddodd paragraff 4.8 o'r adroddiad enghreifftiau o gryfderau ac arfer da mewn perthynas â swyddogaethau Rheoli Adeiladu.

Teimlai Aelod y byddai o fantais i Aelodau'r Pwyllgor hefyd gael adborth gan aelodau o'r cyhoedd, megis ar ffurf Holiaduron, a fyddent, pe baent yn cael eu cwblhau a'u dychwelyd, yn adlewyrchu lefelau boddhad cwsmeriaid gyda'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu mewn perthynas â gwaith Cynllunio a Datblygu.

Dywedodd Rheolwr y Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu fod data fel yma'n arfer cael ei ddarparu i'r Pwyllgor yn flynyddol fel rhan o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol (APR), fodd bynnag, ers y pandemig nad yw wedi bod yn ofynnol i awdurdodau cynllunio gyflwyno APRau. Hefyd, gyda lefelau staffio wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid oedd digon o adnoddau o fewn yr Adran yn awr, i gasglu'r wybodaeth hon er mwyn ei chyflwyno i Aelodau o bryd i'w gilydd ac ynghyd ag awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru, cynhelir gwaith arolygu gan Uned Ddata Cymru. Gobeithio y bydd y gwaith hwn yn ailddechrau'r flwyddyn nesaf.

PENDERFYNIAD: Bod Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi nodi cynnwys yr Adroddiad hwn, yn ogystal â'i ganfyddiadau a'i argymhellion yn yr Adroddiadau Archwilio ar gyfer y ddau faes gwasanaeth a nodwyd.

529. COFNOD HYFFORDDIANT

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau adroddiad, a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cofnod Hyfforddiant i Aelodau wrth symud ymlaen.
Nododd yr Aelodau'r pynciau ar gyfer hyfforddiant a gynhwyswyd yn yr adroddiad a gwnaeth rai awgrymiadau pellach ar gyfer eu trefnu hefyd, fel a ganlyn:-

- Polisi Cynllunio wedi'i Ddiweddaru – Llifogydd ac erydu arfordirol (diweddariad TAN 15)
- Polisi Coed
- Hawliau Tramwy Cyhoeddus/Llwybrau Ceffylau
- Gofod gardd – Adeiladau mewn gerddi (gweithdy)
- Adeiladu mewn Ardaloedd Cadwraeth

PENDERFYNIAD: Nodi'r adroddiad, gan gynnwys y meysydd a awgrymir ymhellach a argymhellir ar gyfer hyfforddiant i Aelodau.

530. EITEMAU BRYS
Dim.